Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Y Plas
# Llanelian
# Hen Golwyn
# Conwy
# LL29 8YY

## Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2013

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 27/06/2013**

## Cyd-destun

Ysgol gynradd yr Eglwys yng Nghymru yw Ysgol Y Plas, sy'n gwasanaethu cymuned pentref Llanelian ger Bae Colwyn a'r ardal wledig gyfagos. Mae'r ysgol yn disgrifio'r ardal fel un nad yw'n ffyniannus na than anfantais yn gymdeithasol nac yn economaidd. Mae gan ryw 24% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, sydd uwchlaw cyfartaleddau'r awdurdod lleol a chyfartaleddau cenedlaethol.

Ar hyn o bryd, mae 56 o ddisgyblion rhwng tair ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol, sydd mewn tri dosbarth oedran cymysg. Mae bron pob un o'r disgyblion o darddiad ethnig gwyn Prydeinig ac yn defnyddio Saesneg fel eu mamiaith. Ni fu unrhyw waharddiadau yn ystod y 12 mis diwethaf.

Mae asesiadau gwaelodlin yn dangos bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau llythrennedd a chyfathrebu cyfartalog. Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 14% o'i disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sef ffigur sy'n llawer is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Nid oes gan unrhyw ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er mis Ebrill 2004.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Y Plas yn 2012-2013 yn golygu mai'r gyllideb yw £4,487 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yng Nghonwy yw £12,262 a'r isafswm yw £3,081. Mae Ysgol Y Plas yn y 22ain safle o'r 60 o ysgolion cynradd yng Nghonwy o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu ac yn cyflawni safonau da mewn llythrennedd a rhifedd;
- bod perfformiad disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 dros y pedair blynedd diwethaf yn cymharu'n dda â pherfformiad ysgolion tebyg ar y cyfan, ac yn enwedig mewn gwyddoniaeth;
- bod safon uchel lles disgyblion yn nodwedd gref yn yr ysgol;
- bod addysgu effeithiol a chynllunio da yn sicrhau bod disgyblion yn cael eu herio gan brofiadau dysgu ysgogol;
- bod llawer o ddisgyblion yn hapus, yn hyderus ac wedi datblygu'n dda yn gymdeithasol; a
- bod yr ysgol yn hyrwyddo agweddau cadarnhaol at gydraddoldeb.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- bod y pennaeth a'r staff yn cydweithio'n agos i greu ethos ysgol gyfan cadarnhaol;
- bod gan y pennaeth a'r staff ddealltwriaeth briodol o gryfderau a gwendidau'r ysgol;
- bod cysylltiad staff â chymunedau dysgu proffesiynol yn cael effaith gadarnhaol ar safonau; a
- bod y partneriaethau cryf gyda rhieni, y gymuned ac ysgolion eraill yn ymestyn profiadau dysgu disgyblion yn effeithiol.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod deilliannau hunanarfarnu yn cael eu monitro yn fwy trylwyr

A2 Cynyddu gallu disgyblion i arfarnu a gwella eu gwaith

A3 Cynyddu rôl llywodraethwyr i gefnogi'r ysgol fel ffrind beirniadol

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mewn gwersi a thros gyfnod, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio eu medrau datrys problemau a'u medrau meddwl yn dda wrth ymgymryd â thasgau ymchwiliol ac maent yn galw dysgu blaenorol i gof yn briodol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai mwy abl a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gweithio i'w llawn botensial. O oedran cynnar, mae disgyblion yn adeiladu ar eu dysgu blaenorol yn dda ac yn ei ddefnyddio'n effeithiol i ddatrys yr heriau niferus y maent yn eu hwynebu mewn gwaith mwy datblygedig. Fodd bynnag, mae gallu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i arfarnu eu gwaith eu hunain a nodi'r hyn y mae angen iddynt ei wneud er mwyn gwella, yn gyfyngedig. Mae merched a bechgyn yn perfformio cystal â'i gilydd ar y cyfan, o gymharu â meincnodau cenedlaethol.

Yn unol â'u hoedran a'u cyfnod datblygu, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflawni safonau da mewn llythrennedd. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i ddefnyddio eu medrau llythrennedd a chyfathrebu mewn gwahanol gyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol. Maent yn mynegi eu syniadau'n glir, ac wrth iddynt aeddfedu, maent yn darllen yn hyderus ac yn gywir ac yn ysgrifennu'n ddychmygus i gyflawni safonau da. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn sillafu geiriau cyfarwydd yn gywir ar y cyfan.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob un o'r disgyblion yn trafod agweddau ar eu gwaith yn wybodus ac maent yn cynnal a datblygu cyfraniadau llafar yn dda. Mae llawer ohonynt yn dangos dealltwriaeth dda o wahanol destunau ac yn cymhwyso ystod eang o strategaethau priodol ar gyfer canfod ac adalw gwybodaeth o lyfrau ac oddi ar wefannau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn mynegi ac yn trefnu eu syniadau mewn gwahanol ffurfiau yn hyderus ac yn gydlynus. Maent yn defnyddio gwahanol strwythurau brawddeg, paragraffu ac atalnodi gydag effeithiolrwydd cynyddol yn eu gwaith ysgrifenedig ar draws y cwricwlwm.

Ar draws yr ystod oedran, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn dda mewn ystod o gyd-destunau. Yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau TGCh yn gymwys mewn gwahanol sefyllfaoedd ac yn gweithio ar raglenni yn annibynnol.

Ychydig iawn o wybodaeth, os o gwbl, sydd gan bron bob un o'r disgyblion am y Gymraeg pan fyddant yn dechrau yn y dosbarth meithrin. Fodd bynnag, mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd da mewn dysgu'r iaith ac yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at y pwnc. Mae'r mwyafrif ohonynt yn cyfleu gwybodaeth bersonol a ffeithiol gyda hyder cynyddol ac yn darllen darnau byr o destun yn gywir. Fodd bynnag, ychydig iawn o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 sydd â digon o hyder i ddechrau sgyrsiau gydag oedolion. Mae gan bron bob disgybl ymwybyddiaeth gynyddol a phriodol o ddiwylliant a threftadaeth Cymru.

Nid oes adroddiad data ar gyfer 2012 ar ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Mae hyn oherwydd na chafodd digon o ddisgyblion eu hasesu i adrodd arnynt heb nodi disgyblion unigol.

Mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 2 dros y pedair blynedd diwethaf wedi bod yn gadarnhaol gyda pherfformiad disgyblion mewn Saesneg a mathemateg yn aml yn golygu bod yr ysgol yn y 50% uwch o ysgolion sydd â chanran debyg o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r deilliannau mewn gwyddoniaeth wedi bod yn eithriadol o dda ac wedi golygu bod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg dros y pedair blynedd diwethaf.

**Lles: Da**

Mae ansawdd lles disgyblion yn nodwedd gref yn yr ysgol. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r berthynas weithio agos iawn sydd ganddynt gyda staff, yn seiliedig ar ethos yr ysgol o ofalu a pharch ar y ddwy ochr. Mae gweithdrefnau llwyddiannus i sicrhau bod disgyblion newydd yn teimlo eu bod yn cael croeso a'u bod yn deall arferion ystafell ddosbarth. Mae gan bron bob disgybl agweddau cadarnhaol tuag at gynnal ffordd iach o fyw ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o bwysigrwydd bwyta diet cytbwys a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae bron pob un ohonynt yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod at bwy i fynd os bydd ganddynt broblem.

Mae disgyblion yn ddysgwyr brwd a sylwgar ar y cyfan sy'n weithgar iawn yn eu gwersi. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymroi yn dda ac yn mabwysiadu agwedd gadarnhaol at weithgareddau dysgu. Yn ystod gwersi ac o amgylch yr ysgol, mae ymddygiad disgyblion yn eithriadol o dda. Dangosant gwrteisi, gofal a phryder at ei gilydd a pharch at staff ac ymwelwyr. Mae disgyblion hŷn yn ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol yn aeddfed, ac maent yn aml yn ymdrechu'n fawr i helpu disgyblion iau.

Mae cyngor yr ysgol yn weithgar a dylanwadol ym mywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae wedi cytuno i brynu offer newydd i'r cae chwarae yn ddiweddar.

Mae cyfraddau presenoldeb wedi gwella'n raddol dros y pum mlynedd diwethaf. Yn 2012, y gyfradd presenoldeb oedd yr uchaf o blith yr ysgolion yn y teulu, ac roedd yn golygu bod yr ysgol yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion sydd â chyfran debyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae prydlondeb disgyblion yn dda a nifer yr absenoldebau anawdurdodedig yn isel iawn.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae cynllunio da yn sicrhau ymdriniaeth briodol â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r rhan fwyaf o brofiadau sy'n cael eu cynllunio ar gyfer disgyblion yn addas o heriol ac yn ysgogol y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae cynllunio trylwyr ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu, rhifedd, TGCh, meddwl a datrys problemau. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar y safonau da a gyflawnir ar draws yr ysgol.

Mae rhaglenni ymyrraeth ar gyfer llythrennedd a medrau personol a chymdeithasol yn cael effaith gadarnhaol ar y cynnydd a wna disgyblion a'u gallu i ddysgu. Mae cynllunio a darpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn briodol ac yn addas ar gyfer oedrannau a galluoedd disgyblion. Mae ymweliadau â chestyll, eglwysi a gerddi cyhoeddus lleol yn rhoi cyfleoedd rheolaidd ac effeithiol i ddisgyblion ddysgu am eu hardal, a hanes a diwylliant Cymru.

Mae ystod dda o weithgareddau ar ôl yr ysgol, sy'n cynnwys ymweliadau preswyl â Glanllyn, clybiau ac ymweliadau, yn cyfoethogi profiadau disgyblion. Mae ymwelwyr â'r ysgol a chysylltiadau â'r gymuned a chyflogwyr yn gwella cyfleoedd dysgu disgyblion.

Mae darpariaeth dda ar gyfer addysgu disgyblion ynglŷn â datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae disgyblion yn cymryd rhan weithredol mewn prosiectau ailgylchu, cadwraeth a phrosiectau i ddatblygu'r mannau allanol.

**Addysgu: Da**

Mae athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gyfoes ac yn cynllunio gwersi gyda phrofiadau dysgu ysgogol. Mae gweithgareddau yn briodol i oedran a galluoedd disgyblion ac yn datblygu eu medrau yn effeithiol. Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn nodi amcanion dysgu a meini prawf llwyddo clir. Mae hyn yn sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn deall beth maent yn ei wneud a'r hyn y dylent anelu at ei gyflawni. Mae ymyrraeth bwrpasol a holi medrus gan athrawon a staff cymorth yn herio syniadau disgyblion ac yn helpu i gynyddu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Mae defnydd athrawon o Gymraeg achlysurol yn effeithiol ar draws yr ysgol. Nid yw rhai gwersi'n symud yn gyflym ac nid ydynt yn helpu disgyblion i ddod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae athrawon yn sefydlu awyrgylch gweithio cynhyrchiol ym mhob gwers. Mae staff cymorth yn rhoi cymorth ac adborth ffocysedig i ddisgyblion, sy'n gwella eu dysgu.

Mae systemau clir ar gyfer olrhain a chofnodi cynnydd disgyblion. Mae'r systemau hyn yn galluogi staff i nodi unrhyw achosion o berfformiad isel a chymryd camau adferol lle bydd angen. Mae gwybodaeth asesu yn llywio'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion yn dda ac mae athrawon yn addasu eu gwersi yn unol â hynny.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi'u sefydlu'n dda ar y cyfan. Mae athrawon yn annog disgyblion hŷn yn gyson i arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill ac i osod eu targedau eu hunain. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion arfarnu eu gwaith a nodi'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella.

Mae adroddiadau blynyddol ysgrifenedig i rieni a chyfarfodydd rheolaidd gyda staff yn sicrhau bod rhieni'n cael gwybodaeth briodol am gynnydd eu plentyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae awyrgylch cynnes, cyfeillgar a chroesawgar ar draws yr ysgol. Mae polisïau priodol ar gyfer sicrhau diogelwch disgyblion. Mae'r ysgol yn mynd ati i hyrwyddo

pwysigrwydd byw yn iach a gwneud ymarfer corff a'r agweddau cymdeithasol ac emosiynol ar ddysgu disgyblion. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda trwy'r cwricwlwm ac arferion dyddiol.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod gan ddisgyblion ddealltwriaeth glir o'r safon ymddygiad ddisgwyliedig a'u bod yn gwybod y canlyniadau os na fyddant yn bodloni'r disgwyliadau hyn. Mae disgyblion yn gwybod at bwy i droi os oes ganddynt unrhyw bryderon ynglŷn â'u diogelwch neu eu lles. Mae'r ysgol yn delio'n gyflym ag unrhyw achosion prin o fwlio.

Caiff disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol eu nodi'n gynnar. Mae'r ysgol yn olrhain eu cynnydd yn effeithiol, a thrwy raglenni ymyrraeth effeithiol a chymorth ychwanegol yn yr ystafell ddosbarth, mae'n sicrhau eu bod yn cyflawni eu targedau personol ar gyfer gwella eu dysgu. Gallant fanteisio'n llawn ar y cwricwlwm cyfan. Mae perthynas effeithiol rhwng yr ysgol a llawer o asiantaethau allanol i fodloni anghenion addysgol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a chydweithredol. Mae disgyblion a staff yn dangos parch at ei gilydd, ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n gyfartal. Mae'r ethos cefnogol yn sicrhau cyfle cyfartal i ddisgyblion o bob oedran, diwylliant a chefndir. Mae'r ysgol yn hyrwyddo agweddau cadarnhaol at gydraddoldeb ac amrywiaeth trwy arfer ystafell ddosbarth, themâu cwricwlaidd a chysylltiadau â'r gymuned leol a gwledydd eraill.

Mae adnoddau o ansawdd da ym mhob ystafell ddosbarth. Mae staff yn defnyddio'r rhain yn effeithiol i wella dysgu disgyblion. Mae adnoddau ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn arbennig o dda ac fe gânt effaith gadarnhaol ar ddysgu disgyblion a'r safonau da y maent yn eu cyflawni.

Mae adeilad yr ysgol yn hygyrch i bob disgybl, staff ac ymwelwyr. Mae'r adeilad, sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda, yn cynnig amgylchedd ysgogol a golau ar gyfer disgyblion. Mae'r ysgol yn defnyddio'r holl le sydd ar gael yn bwrpasol. Mae arddangosiadau mewn ystafelloedd dosbarth a mannau cymunedol yn dathlu gwaith a chyflawniadau disgyblion yn dda. Mae'r ddarpariaeth awyr agored ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn dda. Mae tir helaeth, gan gynnwys gardd lysiau eang y mae'r disgyblion yn gofalu amdani.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth a'r staff yn cydweithio'n agos i greu ethos ysgol gyfan cadarnhaol lle caiff gwaith tîm ei annog a'i werthfawrogi. Mae staff yn rhannu synnwyr cyffredin o ddiben a chyfeiriad ac mae ganddynt ddiwylliant sefydledig a chadarnhaol o wella'r ysgol.

Mae rolau wedi cael eu dosbarthu'n synhwyrol ac mae pob aelod o staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Mae'r rhan fwyaf o linellau atebolrwydd yn glir. Mae disgrifiadau swydd manwl yn cysylltu'n dda â chyfrifoldebau unigol athrawon. Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i fyfyrio a rhannu arfer dda.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn o'r ysgol ac fe gaiff ei hysbysu'n briodol am ei bywyd a'i gwaith. Mae aelodau yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol yn effeithiol ac yn cyfrannu'n dda at gyfeiriad strategol yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw eu rôl fel ffrind beirniadol ac o ran dwyn yr ysgol i gyfrif am y safonau a'r ansawdd y mae'n eu cyflawni wedi'i datblygu'n llawn.

Caiff blaenoriaethau cenedlaethol a lleol eu hymgorffori'n effeithiol yn rhaglenni gwaith yr ysgol. Mae wedi rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith yn llwyddiannus ac mae wedi sefydlu mentrau asesu ar gyfer dysgu ym mhob dosbarth.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan y pennaeth a'r staff ddealltwriaeth briodol o gryfderau a gwendidau'r ysgol. Trwy'r broses hunanarfarnu, maent yn coladu ac yn craffu ar ystod eang o dystiolaeth ac maent yn defnyddio hyn i nodi blaenoriaethau priodol ar gyfer datblygu. Mae dadansoddi a dehongli data perfformiad yn agos yn galluogi staff addysgu i nodi cryfderau a diffygion yr ysgol yn glir a gosod targedau priodol ar gyfer gwella. Maent hefyd yn ystyried safbwyntiau rhieni, disgyblion, staff a llywodraethwyr yn dda wrth adolygu cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu.

Caiff deilliannau hunanarfarnu eu defnyddio'n briodol i lywio cynllun gwella'r ysgol. Mae'r cynllun yn ddogfen gryno sy'n cynnwys targedau ar gyfer gwella, graddfeydd amser a meini prawf llwyddo addas. Fodd bynnag, nid oes systemau priodol ar gyfer monitro effaith y cynllun gwella ar addysgu a dysgu.

Caiff aelodau o staff gyfleoedd da ar gyfer datblygiad proffesiynol, yn unol â'u cyfrifoldebau penodol a'u hanghenion datblygiad proffesiynol. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar addysgu a dysgu ac ar roi mentrau newydd ar waith yn llwyddiannus, fel asesu ar gyfer dysgu.

Mae llawer o rwydweithiau llwyddiannus o gymunedau dysgu proffesiynol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a gwella darpariaeth. Yn benodol, dechreuodd y pennaeth gymuned ddysgu broffesiynol gydag ysgolion eraill yn nheulu'r ysgol i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion trwy gerddoriaeth. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar fedrau cymdeithasol disgyblion ac wedi gwella ansawdd eu cyfansoddi cerddorol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaethau cryf gyda rhieni, y gymuned ac ysgolion eraill yn ymestyn profiadau dysgu disgyblion yn effeithiol. Mae rhieni'n gefnogol iawn ac yn gwerthfawrogi'r wybodaeth reolaidd a gânt am weithgareddau'r ysgol a chynnydd eu plant.

Mae'r cydweithio rhwng yr ysgol a'i theulu lleol o ysgolion yn nodwedd gref ac mae'n effeithiol o ran hyrwyddo a rhannu syniadau ymhlith staff ac wrth ddatblygu agweddau ar y cwricwlwm yn ogystal. Mae'r cysylltiadau agos sydd wedi cael eu meithrin gyda'r ysgolion uwchradd sy'n derbyn y disgyblion yn hwyluso cyfnod pontio disgyblion o un cyfnod allweddol i'r cyfnod allweddol nesaf, ac yn sicrhau parhad a dilyniant yn eu dysgu. Mae trefniadau trylwyr ar gyfer safoni gwaith disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2.

Mae cysylltiadau rhwng yr ysgol a'r gymuned leol, sy'n fuddiol i'r ddwy ochr. Mae ymwelwyr o'r gymuned ac ymweliadau â'r gymuned yn cyfoethogi profiadau disgyblion. Sefydlwyd cysylltiadau cryf gyda'r eglwys leol, y gymuned yn gyffredinol, busnesau lleol a sefydliadau hyfforddi athrawon.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon sy'n meddu ar gymwysterau a phrofiad digonol i fodloni anghenion dysgu disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Defnyddir staff yn effeithiol. Gwnaed trefniadau ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon, ac fe'u rhoddwyd ar waith yn effeithlon. Cânt effaith gadarnhaol ar ddysgu disgyblion.

Mae trefniadau priodol ar gyfer rheoli'r gyllideb, ac mae'r corff llywodraethol yn monitro cyllid yr ysgol yn agos er mwyn sicrhau bod gwariant yn cyd-fynd â blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae'r pennaeth, y staff a'r llywodraethwyr yn sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n ddoeth ac yn effeithlon er mwyn hyrwyddo lles disgyblion. Mae'r ysgol yn rheoli ei chyllideb yn dda.

Yng ngoleuni'r deilliannau da a gyflawnir gan lawer o ddisgyblion, y safon uchel o ofal, cymorth ac arweiniad a rheolaeth effeithlon o ran yr adnoddau sydd ar gael, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Nid oes adroddiad data ar gyfer 2012 ar berfformiad disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2.  Mae hyn oherwydd na chafodd digon o ddisgyblion eu hasesu i adrodd arnynt heb nodi disgyblion unigol.

Nid oes data tueddiadau ar gael ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.

Mae tueddiadau mewn perfformiad yng nghyfnod allweddol 2 dros y pedair blynedd diwethaf wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan, heb unrhyw batrwm newydd o dangyrhaeddiad.  Er bod y ffaith fod y garfan fach wedi arwain at rywfaint o amrywiad, mae'r perfformiad mewn Saesneg a mathemateg yn aml wedi golygu bod yr ysgol yn y 50% uwch o ysgolion sydd â chanran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.  Mae canlyniadau gwyddoniaeth wedi bod yn eithriadol o dda dros y pedair blynedd diwethaf ac wedi golygu bod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg.

Mae bron pob un o'r disgyblion, beth bynnag fo'u gallu neu eu cefndir, yn gwneud cynnydd da ar draws yr ysgol.  Yn gyffredinol, mae merched a bechgyn yn perfformio cystal â'i gilydd.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

Llenwyd yr holiadur gan ugain o rieni.  Roedd bron pob un o'r ymatebion yn gadarnhaol neu'n gefnogol i'r ysgol.

Dywed bron pob un o'r rhieni:

- fod eu plentyn yn hoffi'r ysgol a'i fod yn gwneud cynnydd da;
- eu bod yn fodlon â'r ysgol ar y cyfan a bod eu plentyn wedi ymgynefino'n dda ac yn teimlo'n ddiogel;
- bod eu plentyn yn cael cymorth i aeddfedu a chymryd cyfrifoldeb a'i fod yn cael ei baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i addysg uwchradd;
- bod eu plentyn yn cael ei drin yn deg ac yn cael ei barchu a bod disgwyl iddo weithio'n galed a gwneud ei orau;
- bod gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar yr hyn y mae eu plentyn yn ei ddysgu a'u bod yn cael eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plentyn; a
- bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda, bod yr addysgu'n dda a'u bod yn gyfforddus ynglŷn â mynd at yr ysgol gyda chwestiynau, awgrymiadau neu gwynion;

Dywed llawer o rieni:

- fod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol a bod ystod dda o weithgareddau gan gynnwys gwibdeithiau neu ymweliadau.

Mae bron pob un o'r ymatebion yn cymharu'n ffafriol â'r meincnodau cenedlaethol.

**Ymatebion i'r holiadur i ddisgyblion**

Llenwyd yr holiadur gan un deg pedwar o ddisgyblion cyfnod allweddol 2. Roedd bron pob un o'r ymatebion yn gadarnhaol.

Dywed bron pob un o'r disgyblion:

- eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol, bod athrawon ac oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd a'u bod yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn poeni neu'n gofidio;
- bod yr ysgol yn eu haddysgu ynglŷn â sut i fod yn iach a bod cyfleoedd niferus iddynt gadw'n iach trwy wneud ymarfer corff yn rheolaidd;
- eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, maent yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda ac yn gwybod beth i'w wneud ac i bwy i ofyn os ydynt yn cael eu gwaith yn anodd; a
- bod digon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron iddynt wneud eu gwaith.

Mae lleiafrif o ddisgyblion yn credu nad yw pob disgybl yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Wil Williams | Arolygydd Cofnodol |
| Lowri Haf Evans | Arolygydd Tîm |
| Peter Haworth | Arolygydd Lleyg |
| Christopher Liptrot | Arolygydd Cymheiriaid |
| Gwawr Mills | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.